eiriolaeth
advocacy

Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

*Rhagfyr2017 Rhifyn 8*

## *Canlyniadau ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol – Rhan 1*

Fel gwasanaeth rheoleiddiedig, bydd rhaid i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA) gydymffurfio â'r canlyniadau, dangosyddion a'r fframweithiau perfformiad a sefydlwyd i sicrhau fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Sut mae'r fframweithiau hyn yn cydblethu a pha ganlyniadau ddylai EBA eu cyflawni?

**Canlyniadau ac allbynnau**

Mae'r pwyslais newydd ar ganlyniadau'n nodi newid cyfeiriad pwysig o ran mesur perfformiad, a oedd hyd yn weddol ddiweddar yn ymwneud yn bennaf â mesur allbynnau. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng allbwn a chanlyniad?

Allbwn yw cynnyrch gweithgareddau penodol tra bod canlyniad yn golygu'r effaith neu'r *newid dros amser* o ganlyniad i'r gweithgareddau a'r allbynnau hynny. Er enghraifft, mewn prosiect a gynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth am wasanaethau eiriolaeth, efallai mai un o'r allbynnau fyddai creu taflen hyrwyddo. Un o ganlyniadau'r prosiect o bosib fyddai sicrhau fod lleisiau mwy o bobl yn cael eu clywed drwy gael mynediad at eiriolaeth o ganlyniad i'r daflen.

**Y dull canlyniadau yng Nghymru**

Mae fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol[1] yn ymhelaethu ar ddiffiniad llesiant yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n ganolog i weithrediad y ddeddf. Mae'n disgrifio'r canlyniadau llesiant y dylai pobl eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon. Byddant yn "rhoi mwy o lais a mwy o reolaeth dros eu bywydau i bobl a'u galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus i sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o wella eu lles". Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar wasanaethau i weithio mewn partneriaeth â phobl i ddeall beth sy'n bwysig iddynt ac i adeiladu ar eu cryfderau a'u galluoedd. Mae'r canlyniadau cenedlaethol yn cael eu disgrifio ar ffurf Datganiadau yn ymwneud â'r unigolyn, e.e. "Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno" ac "Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod".

Dylai cynlluniau gofal a chymorth nodi'r canlyniadau llesiant personol y mae unigolion yn eu dewis drostynt eu hunain, oddi fewn i gyd-destun y fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Amlygir y canlyniadau hynny yn ystod y sgwrs "beth sy'n bwysig" sy'n gosod y sail ar gyfer y dull newydd hwn o asesu angen a chynllunio gofal a chymorth.

Cynhyrchwyd set o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol a bydd adroddiadau blynyddol gan Lywodraeth Cymru'n mesur cynnydd yn erbyn y fframwaith canlyniadau er mwyn cael dealltwriaeth o effaith cyffredinol gofal a chymorth ar fywydau pobl.

Datblygwyd fframwaith mesur perfformiad[2] yn ogystal i fesur yr hyn mae awdurdodau lleol yn ei wneud i wella canlyniadau llesiant i bobl, er nad yw hyn ar hyn o bryd yn cynnwys EBA. Mae'n cyd-fynd â set o chwech o safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol y manylir arnynt yn y Côd Ymarfer ynglŷn â mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol[3].

Parhad

Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn cyd-fynd â'r canlyniadau a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n darparu cydweledigaeth i gyrff cyhoeddus weithio tuag ati. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframweithiau canlyniadau ar gyfer y GIG ac Iechyd Cyhoeddus a chyhoeddwyd datganiad cryno[5] i sicrhau fod y tri fframwaith yn dod ynghyd i roi tystiolaeth ynglŷn ag a yw'r gwasanaethau yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

**Canlyniadau enghreifftiol ar gyfer EBA**
Cynhyrchwyd set ddrafft o ganlyniadau enghreifftiol ar gyfer darparwyr a chleientiaid gwasanaethau EBA gyda mewnbwn gan y Rhwydwaith Eiriolaeth a Grŵp Cyfeirio Strategol y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd. Rydym yn gwahodd adborth ehangach ar y canlyniadau enghreifftiol er mwyn sicrhau fod y set derfynol yn addas i'w cynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Comisiynu EBA ar gyfer Oedolion yng Nghymru, fydd yn cael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno yn ystod y gwanwyn nesaf. Mae 9 o ganlyniadau ar gyfer cleientiaid a 4 ar gyfer darparwyr:-

O ganlyniad i gefnogaeth a dderbyniwyd gan wasanaeth EBA, mae cleientiaid yn:

1. derbyn mwy o wybodaeth ac yn cael gwell dealltwriaeth o'r opsiynau gofal a chymorth sydd ar gael iddynt fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus, ac yn
2. gallu adnabod eu canlyniadau llesiant personol, rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni'r canlyniadau hynny a sut y gellir ymdrin â hwy yn well
3. gallu cymryd rhan lawn mewn prosesau gwasanaethau cymdeithasol ac yn meddu ar fwy o reolaeth dros eu cynllun gofal a chymorth.
4. gallu cyfleu eu safbwyntiau, dymuniadau a theimladau yn well wrth weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a bod camau'n cael eu cymryd i weithredu arnynt.
5. fwy abl i herio a, phan fod angen, wneud cwynion am brosesau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, neu i gael eu cynrychioli i wneud hynny.
6. yn deall eu hawliau a sut i'w cynnal yn well.
7. teimlo'n fwy gwybodus, diogel ac mewn gwell sefyllfa i amddiffyn eu hunain os oes pryderon ynglŷn â diogelu.
8. teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.
9. fwy abl i gael mynediad at wybodaeth yn y fformat y maent yn ei ffafrio ac i gyfathrebu yn eu hiaith ddewisol.

Bydd darparwyr gwasanaeth EBA yn anelu i fanteisio i'r eithaf ar y canlyniadau a ganlyn:

1. mynediad i a defnydd o'r gwasanaeth gan ystod fwy amrywiol o gleientiaid.
2. boddhad y cleient o ran ansawdd y gefnogaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaeth.
3. dysgu parhaus o sylwadau, awgrymiadau a chwynion.
4. cyfleoedd i gleientiaid fod yn rhan o broses llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r gwasanaeth, ac yn cyd-gynhyrchu datblygiadau'r gwasanaeth.

Gellir cael mynediad at bapur yn dangos sut mae'r canlyniadau enghreifftiol yn cysylltu â'r Datganiadau yn Model Outcomes.

IYn Rhan 2 byddwn yn cyflwyno set o ddangosyddion perfformiad enghreifftiol drafft fel bod modd mesur canlyniadau EBA.

**Cyfeiriadau**


[1] http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy
[2] http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?skip=1&lang=cy
[3] http://gov.wales/docs/dhss/publications/160401codecy.pdf
[4] http://gov.wales/docs/dhss/publications/160405summarycy.pdf



**Paul Swann,**
**Development Officer for Commissioning, Age Cymru**

## *Cefnogi Comisiynu ac Arfer Dda Eiriolaeth: Rhestr Adnoddau*

Rydym yn falch o gyflwyno rhestr o adnoddau defnyddiol y gofynnwyd amdani gan randdeiliaid. Mae'r rhestr yn dwyn ynghyd deddfwriaeth, ymchwil, arfer dda, gwybodaeth a dolenni i wefannau defnyddiol i gefnogi comisiynwyr a darparwyr ledled Cymru.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi a byddwn yn parhau i ddiweddaru'r wybodaeth trwy gydol oes y rhaglen.

Mae un eitem wedi'i hychwanegu at y rhestr, ac mae'r eitem honno wedi ei hamlygu mewn coch.

Age Cymru | Rhestr Adnoddau Cefnogi Comisiynu ac Arfer Dda Eiriolaeth

## *Matrics Aeddfedrwydd – Offeryn Hunanasesu ar gyfer Timau Comisiynu Eiriolaeth Llywodraeth Leol*

Mae'r tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd a chomisiynwyr eiriolaeth Llywodraeth Leol yng Ngogledd Cymru wedi bod yn datblygu Matrics Aeddfedrwydd: offeryn hunanasesu i helpu comisiynwyr i fesur pa mor aeddfed yw eu swyddogaeth comisiynu, ac i amlinellu beth fydd rhaid iddynt wneud er mwyn datblygu i fod yn gwbl aeddfed. Bydd y Matrics Aeddfedrwydd yn ddogfen etifeddiaeth y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd, sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Gomisiynu Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (GBA), y gall comisiynwyr barhau i'w defnyddio i gefnogi datblygu comisiynu eiriolaeth ar ddiwedd y rhaglen yn 2019.

Rydym hefyd yn datblygu Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer darparwyr, ond newydd ddechrau mae'r gwaith hwn.

**Y Broses Ddatblygu**

Anfonodd y tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd arolwg asesu sylfaen o dimau comisiynu eiriolaeth Llywodraeth Leol ar ddiwedd 2016. Seiliwyd y ffurflen ar bedwar cam y cylch comisiynu: dadansoddi, cynllunio, gwneud ac adolygu. Dychwelodd y comisiynwyr yr arolygon wedi eu cwblhau yn gynnar yn 2017. Roedd y canlyniadau yn cynnig cipolwg ar ble roedd y swyddogaethau wedi cyrraedd o ran eu datblygiad a'r meysydd oedd angen eu gwella. Wedi hynny bu'r tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn ystyried y ffordd orau o'u cynorthwyo.

Ein hateb oedd Matrics Aeddfedrwydd. Roedd offeryn ar ffurf templed, a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i gynorthwyo i ddatblygu gwasanaeth nyrsio cardiaidd arloesol, ar gael yn barod. Yna, addaswyd y templed gan Val Billingham, Swyddog Datblygu ar gyfer Comisiynu Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (Gogledd Cymru), gan ei seilio, yn yr un modd â'r ffurflen asesu sylfaen, ar bedwar cam y cylch comisiynu. Defnyddiodd Val yr un dangosyddion â'r ffurflen asesu sylfaen, a chynnwys datganiadau gwirioneddol gan gomisiynwyr, wedi eu cymryd o'r adran nodiadau ar ddiwedd y ffurflen.

Wedi hynny cynhaliodd Val a Huw Davies, Swyddog Datblygu ar gyfer Comisiynu (Canolbarth a De Orllewin Cymru), weithdy ar gyfer comisiynwyr Gogledd Cymru. Adolygodd bum comisiynydd o Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy a Gwynedd y ffurflen, linell wrth linell. Awgrymodd y comisiynwyr gynnwys ystod o ddatganiadau wedi eu graddoli gan ddefnyddio'r system RAG (Coch, Ambr a Gwyrdd) er mwyn adlewyrchu'r gwahanol gamau aeddfedrwydd (ymwybodol, ymateb, datblygu ac ymarfer) ac argymhellwyd defnyddio grid tystiolaeth yn y cefn, er hwylustod.

Yn dilyn gweithdy Gogledd Cymru, adolygodd Val y ffurflen a'i hanfon yn ôl at gomisiynwyr Gogledd Cymru er sylwebaeth. Cafodd y Matrics Aeddfedrwydd drafft dderbyniad brwd gan y comisiynwyr, ac mae rhai yn ystyried ei addasu i'w ddefnyddio mewn meysydd comisiynu eraill.

Parhad

Wedi hynny, cyflwynodd y tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd y Matrics Aeddfedrwydd drafft i Grŵp Cyfeirio Strategol y Fframwaith Cenedlaethol. Cytunodd y Grŵp Cyfeirio Strategol mai'r cam nesaf fyddai cynnal cynllun peilot o'r drafft presennol gyda Chomisiynwyr o Dde Cymru. Bydd gweithdy sydd eisoes ar y gweill yn Ne-orllewin Cymru yn gyfle i wneud hynny.

Gwaith ar y gweill yw'r Matrics Aeddfedrwydd o hyd. Mae'r tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn gobeithio derbyn mewnbwn o Dde-ddwyrain Cymru. Os hoffai unrhyw gomisiynwyr o Dde-ddwyrain Cymru gymryd rhan, byddem yn falch iawn o glywed gennych. Cysylltwch â Paul Swann, Swyddog Datblygu ar gyfer Comisiynu (De-orllewin Cymru) ar paul.swann@agecymru.org.uk

**Matrics Aeddfedrwydd Darparwr**
Dechreuodd gwaith ar Fatrics Aeddfedrwydd ar gyfer darparwyr yn y Rhwydwaith Eiriolaeth Cymru Gyfan ar 21 Mehefin. Canolbwyntwyd ar chwarter cyntaf y cylch comisiynu ("Dadansoddi"). Cynhelir gweithdy arall, gyda darparwyr sydd wedi cael eu dewis, er mwyn datblygu'r drafft ar 22 Tachwedd yn yr Wyddgrug.

Mae nifer o elfennau cyd-ddibynnol yn y Matricsau Aeddfedrwydd ar gyfer comisiynwyr a darparwyr. Mae comisiynwyr yn ddibynnol ar ddarparwyr i, er enghraifft, ddychwelyd data monitro cywir ac amserol fel bod comisiynwyr yn gallu cyflawni rhai o'u canlyniadau eu hunain, ac i'r gwrthwyneb. Mae gwaith wedi dechrau ar fapio'r elfennau cyd-ddibynnol hyn er mwyn sicrhau fod y ddwy ffurflen hunan asesu'n cyd-weddu â'i gilydd ac nad oes unrhyw fylchau ynddynt.

Byddwn yn cynnwys diweddariad ar gynnydd y Matrics Aeddfedrwydd darparwyr mewn cylchlythyr yn y dyfodol.

**Valerie Billingham**
**Swyddog Datblygu ar gyfer Comisiynu Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (Gogledd Cymru)**

## *Ymgyrch Lles Drwy Wres Age Cymru*

Yn ôl yr arfer yr adeg hon o'r flwyddyn, rydym yn gofyn am eich cymorth unwaith eto i sicrhau 'Lles Drwy Wres' y Gaeaf hwn.

Mae ymgyrch 'Lles Drwy Wres' Age Cymru wedi dechrau a bydd yn rhedeg o fis Tachwedd 2017 hyd at fis Mawrth 2018.

Yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, strategaeth gyffredinol yr ymgyrch 'Lles Drwy Wres' yw rhoi gwell cefnogaeth i bobl hŷn i wneud dewisiadau mwy iach a theimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth ac yn cael eu grymuso i gynnal lefel dda o iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf. Nod strategol yr ymgyrch yw cefnogi'r GIG drwy leihau nifer y bobl hŷn sy'n mynd yn sâl ac sydd angen gwasanaethau gofal iechyd eilaidd a thrydyddol. Mae'r ymgyrch hefyd yn cefnogi GIG Cymru drwy hyrwyddo Dewis Doeth a Threchu Ffliw, gan godi ymwybyddiaeth o wasanaethau gofal cynradd a chymunedol ymysg pobl hŷn a'u cefnogi i gymryd camau i osgoi gorfod defnyddio adrannau Damwain ac Argyfwng neu ffonio 999 ar gyfer mân anhwylderau.

Eleni byddwn yn cyhoeddi argraffiad newydd o'n canllaw poblogaidd 'Yn Gynnes dros y Gaeaf', ynghyd â phosteri, cardiau thermomedr, taflen chwalu mythau 'Peidiwch â bod yn oer y gaeaf hwn', taflen wybodaeth 'Cymorth gyda chostau gwresogi yng Nghymru', 'Mwy o arian yn eich poced', 'Arbed ynni, talu llai' a gellir eu lawrlwytho o'n gwefan

Mae modd archebu copïau wedi eu hargraffu drwy gysylltu â Llinell Gyngor Age Cymru **08000 223 444** neu advice@agecymru.org.uk

Rydym hefyd yn cefnogi cyflwyno elfen newydd yr ymgyrch Dewis Doeth y gaeaf hwn:

Parhad

‘Fy Nghynllun Iechyd y Gaeaf Hwn’.

Os ydych yn cynnal digwyddiad rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth ac os hoffech dderbyn fy nghefnogaeth neu os hoffech i mi fod yn bresennol i gynnal stondin wybodaeth, cysylltwch â mi’n uniongyrchol gan ddefnyddio’r manylion isod.

Efallai yr hoffech ein dilyn ni ar Twitter @AgeCymru a defnyddio’r hashnod #LlesDrwyWres #SpreadTheWarmth, a beth am ein hoffi ni ar Facebook

Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod faint o’r eitemau hyn sy’n cael eu dosbarthu a’u derbyn ac am unrhyw ddigwyddiadau yr hoffech i ni eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cefnogi ‘Lles Drwy Wres’. Defnyddiwch y logo ynghlwm ar ddeunyddiau marchnata, os gwelwch yn dda.

Rhannwch y wybodaeth hon gyda’ch rhwydweithiau er mwyn sicrhau fod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo ac yn derbyn cefnogaeth, a helpwch ni i rannu’r negeseuon iechyd gyda phobl hŷn, teuluoedd a ffrindiau.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth yn ystod yr ymgyrch, ac os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Angharad Phillips ar e-bost angharad.phillips@agecymru.org.uk neu ffoniwch 02920 431 555.

**Angharad Phillips, Age Cymru**

## *Dilyniant i’r Adolygiad o Gartrefi Gofal*

Pan gyhoeddodd y Comisiynydd ei hadroddiad ar yr Adolygiad o Gartrefi Gofal yn 2014, a ddarganfu fod gan ormod o bobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru ansawdd bywyd annerbyniol, cadarnhaodd y byddai’n cynnal rhaglen o waith dilynol er mwyn sicrhau fod y newidiadau sydd eu hangen yn cael eu gweithredu, neu fod bwriad i’w gweithredu.

Yn gynharach eleni, gofynnodd y Comisiynydd am dystiolaeth gan y Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru ac AGGCC ynglŷn â’r camau yr oeddent wedi eu cymryd mewn ymateb i 15 o’i Anghenion Gweithredu, sy’n rhoi sylw i feysydd amrywiol yn cynnwys gofal ymataliaeth, ail-alluogi ac ailsefydlu, atal cwympiadau, hyfforddiant dementia, meddyginiaeth gwrthseicotig, arolygu a llywodraethiant, a chynllunio’r gweithlu.

Cafodd y meysydd penodol y mae’r Comisiynydd yn edrych arnynt fel rhan o’i Hadolygiad dilynol eu nodi oherwydd eu bod yn syrthio tu allan i ddatblygiadau polisi a deddfwriaeth, neu oherwydd eu bod yn ymwneud â materion parhaus a rannwyd gyda Thîm Gwaith Achos y Comisiynydd.

Mae’r Comisiynydd a’i thîm wedi dadansoddi’r wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff cyhoeddus ac fe’i defnyddir fel sail i adroddiad sy’n amlinellu cynnydd a wnaethpwyd, enghreifftiau o arfer dda ac unrhyw feysydd lle mae angen gwneud mwy o waith er mwyn cyflawni’r canlyniadau fydd yn sicrhau fod pobl hŷn yn cael yr ansawdd bywyd gorau.



Bydd yr adroddiad hwn a’r adborth a roddwyd i bob corff cyhoeddus ynglŷn â’i ymateb yn cael ei gyhoeddi bellach ym mis Ionawr 2018 er mwyn adlewyrchu’r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru’n cyflwyno Rheoliadau a Chanllawiau i’r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd, fel rhan o ail gam gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae’n debygol y bydd yr offerynnau statudol hyn yn cael dylanwad sylweddol ar ffurf y sector cartrefi gofal yng Nghymru yn y dyfodol ac mae’n hanfodol fod yr adroddiad yn rhoi ystyriaeth lawn i’r newidiadau a amlinellir yn y Rheoliadau a’r Canllawiau.

I ddarganfod mwy am Adolygiad o Gartrefi Gofal y Comisiynydd, ewch i:

Lle i'w Alw'n Gartref?: Adroddiad Arolwg o Gartrefi Gofal

## *Adolygiad blynyddol yn datgelu fod yr Ombwdsmon yn cadarnhau dau draean o gwynion ynglŷn â gofal cymdeithasol oedolion*

Corff gwarchod yn canmol 'diwylliant dysgu' yn y sector gofal annibynnol ond yn cyfaddef fod cynnydd mewn cwynion yn ymwneud â diogelu'n 'destun cryn bryder'. Mae adolygiad blynyddol yr ombwdsman llywodraeth leol a gofal cymdeithasol wedi datgelu fod 63% o gwynion gofal cymdeithasol oedolion wedi eu cadarnhau yn 2016-17, 10% yn uwch na'r cyfartaledd ar draws yr holl sectorau.

Bu cynnydd o 5% yn yr ymchwiliadau gafodd eu cadarnhau yn 2016-17 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd cynnydd o 9% yn nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd, sef 1,214. Bu'r cynnydd mwyaf yn nifer y cwynion ynglŷn â diogelu oedolion, 27% yn uwch na 2015-16. Yn y cyfamser bu cynnydd o 16%, i 447, yn y cwynion yn ymwneud â darparwyr gofal annibynnol, gyda chynnydd graddol i'w weld o flwyddyn i flwyddyn ers 2010-11, pan dderbyniwyd 58 o gwynion yn unig.

Dywedodd Michael King, yr ombwdsman llywodraeth leol a gofal cymdeithasol, fod y ffigyrau diogelu yn "peri pryder". Ond roedd yn croesawu'r cynnydd yn y cwynion am ofal annibynnol fel tystiolaeth o "ddiwylliant dysgu" ymysg darparwyr a oedd, meddai o, yn gwella yn y modd yr oeddent yn ymateb i gwynion ac yn annog pobl i gyfeirio cwynion.

**Pryderon Diogelu**
Mae'r ombwdsman yn gweithredu pan fetha popeth arall, mewn anghydfodau na lwyddwyd i'w datrys yn lleol, a derbyniodd 3,061 o gwynion ac ymholiadau'n ymwneud â gofal cymdeithasol oedolion, sef ychydig o gynnydd o 2,969 yn 2015-16. Asesu a chynllunio gofal ddenodd y mwyaf o gwynion, 715 (i fyny o 600), wedi ei ddilyn gan ofal preswyl (609, i fyny o 599) a gofal cartref (362, i lawr o 372). Bu cynnydd yn nifer y cwynion am ddiogelu, a oedd wedi disgyn yn 2015-16, o 223 i 283. Cadarnhawyd 64% o'r cwynion hyn, cynnydd o 6% ar y flwyddyn flaenorol.

Dywedodd King fod hynny'n bryder, o ystyried nad oedd cwynion am ddiogelu'n debygol o gael eu heffeithio gan y pwysau ariannol yr oedd cynghorau'n ei wynebu yn yr un modd ac mewn meysydd eraill.

"Mae'n [faes] gweddol isel o ran nifer ond yn uchel iawn o ran difrifoldeb; mae'r ystadegyn hwnnw'n un sy'n peri pryder a byddwn yn gwneud mwy o waith manwl ynglŷn â'r mathau o gwynion a'r gwersi y gellir eu dysgu", dywedodd.

**Twf mewn Aeddfedrwydd'**
O'r holl gwynion a dderbyniodd yr ombwdsman, roedd 447 yn ymwneud â darparwyr gofal annibynnol, i fyny o 386 yn ystod y flwyddyn flaenorol, a'r rheswm am hynny yn ôl King yw "twf yn aeddfedrwydd" y sector.

"Mae pobl yn fwy parod i edrych ar gwynion fel adnodd dysgu; rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr er mwyn adeiladu hyder o ran ymdrin â chwynion ac annog pobl i gyfeirio cwynion sydd heb eu datrys atom ni", meddai.

Dywedodd Martin Green, prif weithredwr y corff Care England, ei bod "yn deg a phriodol" fod darparwyr yn gweithio gyda'r ombwdsmon.

"Mewn sector sy'n cael ei gwasgu o bob cyfeiriad, mae'n galonogol gweld darparwyr yn cael eu canmol am sicrhau fod rôl yr ombwdsmon yn fwy hysbys, ac am arwain y blaen o ran dysgu o gwynion", dywedodd.


**Gwella Gwasanaethau**
Roedd adolygiad yr ombwdsman hefyd yn amlygu'r posibilrwydd fod cwynion yn arwain at welliannau yn y gwasanaeth sydd o fudd i bobl heblaw'r person sy'n gwneud y gŵyn.

Roedd tua un mewn tri o'r cwynion a gafodd eu datrys yn 2016-17 yn cynnwys mesurau i roi sylw i "broblemau systematig", yn ôl yr adolygiad, megis cyflwyno newidiadau gweithdrefnol neu hyfforddi staff.

**Community Care online**

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

### *Hawliau Dynol ac Eiriolaeth: Canllaw Byr*




Mae'r canllaw byr 8 tudalen hwn yn adeiladu ar waith y Sefydliad Prydeinig dros Hawliau Dynol gydag eiriolwyr iechyd a llesiant, yn cynnwys sesiynau a gynhaliwyd yng ngogledd-orllewin Lloegr yn ddiweddar, a noddwyd drwy garedigrwydd yr *Evan Cornish Foundation*.


Bydd y canllaw hwn yn eich cynorthwyo i ddeall sut mae hawliau dynol yn berthnasol i'r problemau yr ydych chi neu eich cleientiaid yn eu profi wrth gael mynediad at iechyd, gofal a gwasanaethau eraill.

Mae'r canllaw yn cynnwys:

1. Sut mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gweithio i Eiriolwyr
2. Pump o hawliau defnyddiol iawn a sut maen nhw'n gweithio
3. Enghreifftiau o sut mae eiriolaeth hawliau dynol yn helpu pobl
4. Siart lif eiriolaeth: ydi hawliau dynol yn berthnasol?
5. Siart lif eiriolaeth: beth i wneud nesaf
6. Ffeithlun o'r 16 hawl sy'n cael eu hamddiffyn gan y Ddeddf Hawliau Dynol

I lawrlwytho'r canllaw, ewch i: Human Rights and Advocacy: A Short-guide

### *Eiriolaeth yn seiliedig ar Hawliau Dynol*




Mae'r Sefydliad Prydeinig dros Hawliau Dynol wedi creu adnoddau newydd ynglŷn â hawliau dynol, iechyd meddwl a galluedd meddyliol. Mae'r adnoddau hyn yn benllanw proses ail-ddrafftio yn dilyn cyhoeddi'r cam cyntaf yng Ngwanwyn 2016.

Gallwch lawrlwytho'r adnoddau newydd drwy glicio ar y ddolen isod a chlicio ar ddelwedd clawr pob adnodd. Byddwch yn ymwybodol y gallai ffurflen ymddangos yn gofyn i chi roi eich manylion cyn y bydd modd i chi gael mynediad at yr adnodd. Pwrpas hyn yw cynorthwyo'r Sefydliad Prydeinig dros Hawliau Dynol i fonitro cyrraedd a chwmpas yr adnoddau a bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer arfarnu ac adrodd yn unig - ni fydd y Sefydliad Prydeinig dros Hawliau Dynol yn defnyddio eich manylion mewn unrhyw fodd oni bai eich bod yn rhoi caniatâd penodol iddynt wneud hynny.

Os hoffech dderbyn copi caled o'r adnoddau, anfonwch e-bost at Jasmine Powell jpowell@bihr.org.uk neu defnyddiwch y ddolen hon er mwyn eu lawrlwytho:

A Human Rights Approach to Advocacy





**Pecyn Cymorth newydd i gefnogi dulliau cadarnhaol ac ataliol o weithio gyda phobl hŷn**
Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth i gynorthwyo'r sector i helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau am gyfnod hirach. Mae'r pecyn cymorth wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn y gymuned, yn ogystal â chynllunwyr a chomisiynwyr gofal a gwasanaethau cefnogol ar gyfer pobl hŷn.

Dilynwch y ddolen isod:

Pecyn cymorth i gefnogi dulliau cadarnhaol ac ataliol o weithio gyda phobl hŷn

**Canllawiau ymarfer wedi eu diweddaru; Rôl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a chynrychiolwyr cyflogedig yn Nhrefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluoedd Meddyliol**
Mae'r canllawiau ymarfer wedi eu diweddaru yn disgrifio rôl yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (EAGMau) a chynrychiolwyr cyflogedig yn Nhrefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluoedd Meddyliol. Mae'r EAGMau yn amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer pobl nad ydynt yn meddu ar y galluoedd meddyliol i wneud penderfyniadau pwysig penodol. Yn bennaf, bydd EAGMau'n cael eu penodi i gynrychioli pobl os nad oes unrhyw un heblaw am wasanaethau ar gael i'w cynrychioli, megis aelod o'r teulu neu ffrind.

Er mwyn gweld y canllawiau ymarfer wedi eu diweddaru ewch i:

Canllawiau ymarfer wedi eu diweddaru: Rôl yr EAGMau a chynrychiolwyr cyflogedig yn Nhrefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluoedd Meddyliol

**Cynhadledd Genedlaethol Eiriolaeth 2017: *Be a Force for Change***
Daeth dros 250 o bobl o'r sector eiriolaeth ynghyd yn yr NEC yn Birmingham ar gyfer y Gynhadledd Eiriolaeth Genedlaethol, Be a Force for Change.

Mae copïau o gyflwyniadau a sgyrsiau'r diwrnod ar gael ar dudalen gwe bwrpasol ar wefan KMT sy'n cynnwys clipiau fideo o'r rhan fwyaf o'r prif siaradwyr a chyflwyniadau a phapurau i gyd-fynd â'r gweithdai.

Rhannwyd copïau caled o adnoddau KMT ar y diwrnod hefyd – os hoffech dderbyn copïau electronig o'r siartiau llif neu'r 'Lighthouses and Rocks' gallwch eu lawrlwytho yma.

**Llyfr Gwaith Achos Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
"Rwyf yn cyhoeddi'r llyfr gwaith achos hwn er mwyn tynnu sylw at y negeseuon allweddol sy'n codi o fy ngwaith achos a dangos effaith gwaith fy Nhîm Gwaith Achos ar fywydau pobl hŷn yng Nghymru. Yn ogystal â defnyddio'r materion sy'n codi o fy ngwaith achos i arwain a llywio fy ngwaith fy hun fel Comisiynydd, rwyf hefyd yn codi'r materion hyn â chyrff cyhoeddus er mwyn helpu i roi sail a threfn i'w harferion yn y presennol a'r dyfodol.

Ynghyd â fy ngwaith mwy cyffredinol fel Comisiynydd, byddaf yn parhau i ddefnyddio fy ngwaith achos i sefyll a siarad dros bobl hŷn ledled Cymru a sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn eu grymuso a'u cefnogi fel y gallant fyw bywydau boddhaus ac annibynnol."

**Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Er mwyn gweld Llyfr Gwaith Achos y Comisiynydd, dilynwch y ddolen isod:

Llyfr Gwaith Achos Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Cylchlythyr Hydref 2017 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Er mwyn gweld Cylchlythyr yr Hydref dilynwch y dolenni isod:

Cymraeg: Cylchlythyr Hydref 2017

## *Digwyddiadau*

**Blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru - Integreiddio, gweithio'n rhanbarthol a'r Strategaeth Dementia Genedlaethol**
Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017 yng Ngwesty'r Jurys Caerdydd, 1 Park Place, Caerdydd CF10 3DN

Bydd y seminar hon yn archwilio'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Daw wrth i Lywodraeth Cymru baratoi i gyflwyno Bil Llywodraeth Leol y flwyddyn nesaf i wella integreiddio rhwng awdurdodau lleol ac i gyflwyno gwasanaethau cymdeithasol ar lefel ranbarthol, yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn llywodraeth leol.

Bydd yn gyfle i ystyried gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn cynnwys effeithiolrwydd byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r heriau sydd ynghlwm â chyflwyno cyllidebau cyfun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd aelodau'r gynhadledd hefyd yn trafod effaith gychwynnol cam cyntaf y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol - a ddiwygiodd drefniadau rheoleiddio a chofrestru'r gweithlu ac a sefydlodd Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhoddir ystyriaeth hefyd i oblygiadau ail a thrydydd cam y Ddeddf cyn eu gweithredu yn 2018 a 2019, yn y drefn honno.

Bydd sesiynau pellach yn trafod mesurau allweddol sy'n rhan o'r Strategaeth Dementia Genedlaethol, effeithiolrwydd y Gronfa Gofal Integredig gwerth £60m a heriau a chyfleoedd sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau cymdeithasol ar lefel rhanbarthol; yn cynnwys sefydlu trefniadau llywodraethiant, gwella gwytnwch ariannol a'r gweithlu, ac integreiddio awdurdodau lleol.

Am fwy o wybodaeth, cliciwch yma

**Defnyddio'r dull hawliau dynol**
17 Ionawr 2018

Mae defnyddio'r dull hawliau dynol yn ymwneud â gwneud hawliau'n realiti yn eich sefydliad a defnyddio'r dyletswyddau cyfreithiol mewn deddfwriaeth hawliau dynol fel cyfrwng ar gyfer newid. Nid yw'n ymwneud â newid *beth* rydych yn ei wneud, ond *sut* rydych yn ei wneud o.

Mae hon yn sesiwn hyfforddi diwrnod cyfan fydd yn rhoi gwybodaeth a hyder i chi ddefnyddio dull hawliau dynol yn eich gwaith. Pa un ai ydych yn gweithio ym maes cynllunio gwasanaeth neu yn cyflenwi gwasanaeth, i grŵp eiriolaeth neu gefnogi, neu i reoleiddiwr, bydd y cwrs hwn yn eich cynorthwyo i weld sut mae hawliau dynol yn berthnasol i'ch gwaith a sut i'w gwreiddio yn eich sefydliad.

Llogwch eich lle drwy ymweld â gwefan y Sefydliad Prydeinig ar gyfer Hawliau Dynol.

## *Gwefannau Defnyddiol*

**Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru**
Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd a Chylchlythyrau Eiriolaeth.

Gwefan Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd

**Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Social Care Institute for Excellence (SCIE) – adran newydd ar y wefan**
Dewch o hyd i'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf ynglŷn â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn yr adran newydd ar y wefan. Mae SCIE wedi dod â'u holl adnoddau a chyrsiau hyfforddiant ynghyd mewn un man y mae'n hawdd cael mynediad ato.

Adnoddau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

## *Llinell Gyngor rhad ac am ddim Age Cymru*

Mae llinell gymorth Age Cymru yn rhoi cyngor diduedd, rhad ac am ddim i'ch etholwyr ar amrywiaeth o bynciau.

Efallai eu bod nhw eisiau cyngor ar faint y dylent fod yn ei dalu am ofal un o'u hanwyliaid? Neu efallai eu bod nhw eisiau gwybod a ydynt yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn ac eisiau help i'w hawlio?

Gall Age Cymru helpu gyda'r holl faterion hyn, a mwy – ffoniwch ni heddiw ar: **08000 223 444**

**Cysylltwch â ni...**

- **I danysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bost** ffion.jones@agecymru.org.uk

**Ffoniwch y Rhaglen Edau Euraidd 01352 706228**

**Ceidw'r golygydd yr hawl i newid yr erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw'r safbwyntiau yn y Cylchlythyr hwn o reidrwydd yn rhai Age Cymru.**

**Derbynnir hysbysebion ac ychwanegion gyda phob ewyllys da, ond felly nid yw'r cynnyrch neu'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn cael eu cymeradwyo neu eu hargymell gan Age Cymru.**

**Age Cymru,**
**Tŷ John Pathy,**
**13/14 Neptune Court,**
**Vanguard Way,**
**Caerdydd, CF24 5PJ**

**t: 029 2043 1555**
**e: enquiries@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

Rhif elusen gofrestredig: 1128436
Rhif cwmni cofrestredig: 6837284
© Age Cymru 2017